

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Rheolwr Llwybr Cynorthwyol

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth




Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.


Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru



- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**

# Teitl y swydd: Rheolwr Llwybr Cyorthwyol



**Cyflog:** £38,626 – £40,476

**Cyfnod:** Parhaol

**Un o’r lleoliadau isod;**

**Lleoliad:** Aberaeron / Aberystwyth neu Llandrindod

**Dyddiad cau:** 10am, dydd Iau, 15 Mai 2025

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

Cynorthwyo’r Rheolwr/Rheolwyr Llwybr i sicrhau y darperir rhwydwaith cefnffyrdd dibynadwy yng ngogledd a chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru (LlC).

Cynorthwyo’r Rheolwr/Rheolwyr Llwybr i reoli’r gweithgarwch gweinyddol cynnal a chadw, gweithredol a thechnegol.

Rheoli gofynion arolygu ac ymchwilio ffyrdd y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd (NRSWA) a gweithredu'r Codau Ymarfer perthnasol ar y rhwydwaith cefnffyrdd ar ran Tîm Meddiannaeth y Rhwydwaith ACGCC.

Cynorthwyo i sicrhau cydymffurfiaeth gyda darpariaethau gorfodaeth a thrwyddedu Deddf Priffyrdd 1980.

**Cyfrifoldeb am swyddogaethau . e.e. staff, cyllidebau, offer**

- Cyfrifol am reoli a chomisiynu rhaglenni gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, gwaith adweithiol a chyllidebau priodol ar gyfer cynnal a chadw’r rhwydwaith cefnffyrdd, gan ddefnyddio contractwyr sector cyhoeddus a phreifat yn y gadwyn gyflenwi.
- Cyfrifol am gadw trosolwg ar y gwaith cynnal a chadw a gweithrediadau eraill o fewn y rhwydwaith cefnffyrdd.
- Cyfrifol am gomisiynu a chadw trosolwg ar Ddarparwyr Gwasanaeth a chontractwyr ACGCC sy'n ymgymryd â gweithgareddau mewn sefyllfaoedd argyfyngus ar y rhwydwaith cefnffyrdd.

# Pwrpas y swydd



# Cyfrifoldebau

## Prif ddyletswyddau

### Arolygiadau

Cydweithio gyda swyddogion Arolygu i sicrhau y cwblheir yr holl arolygiadau, patrols a’r mesuriadau arferol ac arbenigol ar elfennau perthnasol y rhwydwaith yn unol â Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd LIC (WGTRMM) neu unrhyw gynlluniau mabwysiedig eraill.

Cydweithio gyda swyddogion Arolygu i gynnal arolygiadau arbenigol ac adweithiol o’r isadeiledd yn ôl gofyn y Rheolwr/Rheolwyr Llwybr a diweddaru Cronfeydd Data LIC ar y cyd â’r timau Cyflawni ac Arolygu.

Rheoli arolygiadau gwaith stryd Adran 75 a gweithgareddau gwaith arolygu Adran 72 ar ran Tîm Meddiannaeth ACGCC (awdurdod strydoedd) fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd .

### Cynnal a chadw

Sicrhau yr ymatebir yn briodol i rwystrau, namau a diffygion a nodir gan batrolau arolygu ac ati o fewn yr amserlenni gofynnol, gan gynnwys comisiynu, rheoli a goruchwylio gwaith brys ac unrhyw waith adweithiol arall yn ôl y gofyn gan ddefnyddio’r adnoddau priodol a mecanweithiau caffael.

Monitro’r gweithrediadau ar y rhwydwaith perthnasol a sicrhau diogelwch defnyddwyr y cefnffyrdd cymaint â phosib.

Monitro’r darpariaethau a’r rhagofalon rheoli risg a ddefnyddir gan y sawl sy’n cyflawni unrhyw weithrediadau o fewn y rhwydwaith.

Gweithredu’r gofynion sy’n berthnasol ar y ffyrdd o Ddyletswydd Adran 81 i Gynnal a Chadw Cyfarpar o dan NRSWA ac Adrannau 41 & 150 y Ddeddf Priffyrdd.

Asesu a chymeradwyo ceisiadau am drwyddedau, er enghraifft i leoli sgipiau, sgaffaldau, hysbysfyrddau neu wneud gwaith cloddio ar y rhwydwaith cefnffyrdd gan sicrhau y cydymffurfir â Deddf Priffyrdd 1980, ynghyd â thelerau ac amodau'r drwydded.

### Rhestr Gynnwys a Chofnodion Gweithredol

Cynorthwyo’r Rheolwr Llwybr a'r Tîm Cyflawni ac Arolygu i gasglu a chynnal a chadw gwybodaeth rhestr gynnwys isadeiledd cefnffyrdd. Cynnal a chadw cofnodion gweithredol e.e. log digwyddiadau. Ymgymryd â rhaglen o fonitro, archwilio ac ymchwilio ar gyfer gweithgareddau a ymgymerir gan ddarparwyr gwasanaeth neu eraill (e.e. cyfleustodau) mewn perthynas ag Adran 65 NRSWA a PR 1.1.21.7 o WGTRMM.

Sicrhau cydymffurfiaeth â manylebau a safonau.

Monitro perfformiad Darparwyr Gwasanaeth ac ymdrin â materion tanberfformio yn unol â gofynion yr Asiantaeth.

## Rôl Rheoli Digwyddiadau

Ymgymryd â rôl Rheolwr Comander (Gweithredol) Efydd yr Asiantaeth pe bai digwyddiad brys fel y diffinnir dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Cynorthwyo mewn sefyllfaoedd argyfyngus i:

- Weithredu cynlluniau rheoli traffig, cau ffyrdd a gwyro llwybrau yn briodol.
- Gweithredu gwaith atgyweirio brys, neu lanhau isadeiledd priffyrdd.
- Asesu cyflwr isadeiledd priffyrdd, ar ôl digwyddiad ac awdurdodi ailagor y ffordd pan fo hynny'n briodol.

## Rôl Rheoli Risgiau

Cynorthwyo'r Rheolwr/Rheolwyr Llwybr i reoli risgiau ar y rhwydwaith cefnffyrdd drwy adnabod y risgiau. Sicrhau y gweithredir mesurau lleihau risg priodol e.e. ymdrin â rhwystrau neu ddiffygion Categori 1 a 2.

## Gweinyddiaeth Dechnegol

Cynorthwyo'r Uned Fusnes i ddarparu gwybodaeth a chyngor ynghylch:

- hawliadau trydydd parti, hawliadau ad-dalu,
- adfer ffioedd sampl Adrannau 74 (Meddiannaeth) a 75 NRSWA,
- comisiynu a rheoli costau,
- ymgysylltu ag Awdurdodau sy'n Bartneriaid

Cynorthwyo'r Rheolwr/Rheolwyr Llwybr gyda phrosesau Rheolaeth Datblygu.

## Rheoli Asedau

Cysylltu, hysbysu a chydweithredu â staff eraill yr Asiantaeth a'r Awdurdodau sy'n Bartneriaid wrth weithio ar fathau penodol o isadeiledd gan gynnwys:

- Asedau trydanol e.e. goleuo stryd;
- Arwyddion traffig e.e. diffygion goleuo ar arwyddion terfynol;
- Asedau strwythurol e.e. waliau cynnal;
- Asedau priffyrdd e.e. adeiladwaith y ffyrdd cerbydau;
- Asedau Geodechnegol e.e. rhwydo creigiau;
- Elfennau meddal yr ystâd e.e. torri gwair.

Sicrhau y caiff cofnodion priodol eu cadw, gan gynnwys cynorthwyo i gynnal a diweddaru gwybodaeth rhestrau cofnodi isadeiledd.




# Manylion Person

## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

### Meini prawf penodol i'r swydd

**Nodweddion personol:**
**Hanfodol**
- Gallu gweithio mewn tîm.
- Hunan-reolaeth.

**Dymunol**
- Sgiliau rhyngbersonol da
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau sylfaenol sy'n briodol i'r swydd
- Hyder wrth ymwneud â chontractwyr neu weithwyr statudol eraill.

**Cymwysterau a Hyfforddiant Pershanasol:**
**Hanfodol**
- HNC neu gymhwyster cyfwerth ynghyd â phrofiad perthnasol, neu brofiad perthnasol eang.
- Cymwysterau a hyfforddiant
- NRSWA i Oruchwylwyr (neu o fewn 6 mis o'r dyddiad penodi)

**Dymunol**
- Gradd mewn peirianneg sifil neu bwnc perthnasol.

**Profiad perthnasol:**
**Hanfodol**
- Cynnal a chadw neu wella priffyrdd ar rwydwaith cefnffyrdd neu briffyrdd allweddol.

**Dymonol**
- Arolygiadau ac asesiadau priffyrdd
- Ymdrin â chwynion,
- Rheoli argyfyngau;
- Goruchwylio contractau neu DSOs (Sefydliadau Llafur Uniongyrchol) mewnol neu weithlu arall.

**Sgiliau a Gwybodaeth Arbenigol:**
**Hanfodol**
- Gweithgareddau cynnal a chadw priffyrdd a deddfwriaeth gysylltiol.
- Safonau rheoli traffig.
- Yn wybodus o TG. Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch.
- Trwydded yrru ddilys gyfredol

**Dymonol**
- Cyfarwydd â systemau rheolaethol cyfrifiadurol.
- Gwybod am Archebu Gwaith neu systemau caffael eraill.

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff.

- 29.5 o wyliau blynyddol y flwyddyn.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o  wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.

- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.

- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.